CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i:	**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
Dyddiad y Cyfarfod:	**3 Mehefin 2021**
Teitl:	**Adroddiad Archwilio Mewnol – Rheoli Risg**
Pwrpas yr adroddiad:	**Rhoi'r wybodaeth i'r Aelodau o'r danganfyddiadau a'r sicrwydd darparwyd yn dilyn yr archwiliad mewnol o'r Fframwaith Rheoli Risg o fewn y Cyngor**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Ray Quant MBE, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfnidiaeth, a Gwasanaethau Democrataidd**

The Internal Audit Section recently reviewed the Council's Risk Management Framework and the supporting corporate procedures in place during the 2020/21 financial year.

Only minor actions were identified, one of which was actioned immediately, resulting in the Internal Audit Section providing high assurance that there is a sound system of controls, governance and risk processes in place.

Argymhelliad:	**Nodi cynnwys yr adroddiad**
Rhesymau dros y penderfyniad:	**Fel bod Aelodau'n derbyn gwybodaeth am ddanganfyddiadau'r archwiliad**
Atodiadau:	Adroddiad Archwilio mewnol – Rheoli Risg
Pennaeth y Gwasanaeth:	Elin Prysor Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro
Swyddog Adrodd:	Amanda Roberts Rheolwr Corfforaethol – Archwilio mewnol
Dyddiad:	16 Mawrth 2021

GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHU

LEGAL & GOVERNANCE SERVICES

GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL

INTERNAL AUDIT SERVICE

Cyngor Sir CEREDIGION County Council



ADRODDIAD ARCHWILIO

Y Fframwaith a'r Gweithdrefnau i Reoli Risgiau Corfforaethol

Paratowyd gan: Neal Wellens, Archwilydd

Cymeradwywyd gan: Amanda Roberts, RhCAM

Dyddiad Cyhoeddi: 15 Mawrth 2021

ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL

Y Fframwaith a'r Gweithdrefnau i Reoli Risgiau Corfforaethol

CRYNODEB GWEITHREDOL

Yn ddiweddar cynhaliwyd adolygiad, er mwyn gwerthuso gweithdrefnau rheoli risg y Cyngor, gan gynnwys y fframwaith i reoli risgiau a'r gofrestr risg gorfforaethol. Cynhaliwyd profion ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21 a dygir rhai materion sy'n deillio o'r profion hyn i'ch sylw.

Ar y cyfan, canfuwyd bod y rhan fwyaf o'r meysydd a wiriwyd yn foddhaol, er enghraifft mae strwythurau ffurfiol o safon dda ar waith ar gyfer rheoli ac adrodd ac mae Swyddog Arweiniol Corfforaethol wedi ei enwebu i fod â chyfrifoldeb cyffredinol am y broses.

Dim ond mân faterion sydd wedi eu nodi yn y Cynllun Gweithredu isod, ac o'r herwydd mae'r Adain Archwilio Mewnol yn gallu darparu sicrwydd uchel bod y gweithdrefnau i reoli risg a'r fframwaith corfforaethol yn cynnwys system reoli gadarn, yn ogystal â systemau cadarn o ran risgiau a llywodraethu.

Yn sgil yr amgylchiadau presennol, mae adolygiadau archwilio a phrofion wedi'u cyfyngu i'r meysydd hynny sy'n gofyn am y mewnbwn lleiaf posibl gan staff.

AMCAN

Prif amcan yr asesiad oedd hysbysu'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd am werthusiad yr Adain Archwilio Mewnol o drefniadau corfforaethol y Cyngor o ran rheoli risgiau ac o safbwynt y fframwaith.

Y DULL O ARCHWILIO

Lluniwyd yr asesiad i werthuso i ba raddau y cyrhaeddwyd safonau penodol. Dyma'r safonau a nodir gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddu ac mewn polisïau eraill a gyhoeddwyd. Wrth wneud hyn, mae'r Adain Archwilio Mewnol wedi gwneud y canlynol:

- Archwilio dogfennau a pholisïau allweddol sy'n ymwneud â'r weithdrefn rheoli risgiau ac
- Adolygu'r gweithdrefnau a ddefnyddir gan y Cyngor o safbwynt y dull y mae'n rheoli risgiau.

CRYNODEB O'R CANFYDDIADAU

Isod nodir y prif ganfyddiadau o ran y meysydd a archwiliwyd:

ALLWEDD	✓ = y Canfyddiadau'n Foddhaol	• = Argymhellwyd Camau Gweithredu

Maes a archwiliwyd	Canfyddiadau
Polisïau a gweithdrefnau corfforaethol sy'n effeithio ar reoli risgiau	✓ Mae polisïau, codau a gweithdrefnau craidd wedi'u sefydlu, maent yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ac yn cael eu cyfathrebu'n dda. ✓ Nid yw'r dolennau i rai dogfennau yn gweithio bob amser ar Cerinet – mae swyddogion wedi cael eu hysbysu am hyn er mwyn iddynt allu eu diweddaru. • Ar hyn o bryd, nid oes modd cael gafael yn y fframwaith i reoli risgiau drwy Cerinet a'r unig ffordd y gellir dod o hyd iddo ar wefan y Cyngor yw drwy gyfrwng agendâu Pwyllgorau. **(Gweler y Cynllun Gweithredu – pwynt 1 isod)**
Strwythur rheoli ac adrodd ffurfiol	✓ Mae'r strwythurau rheoli ac adrodd yn glir, maent wedi'u diffinio'n dda ac wedi'u cyfathrebu'n effeithiol drwy gyfrwng Cerinet a gwefan y Cyngor. Mae esboniad o'r strwythurau sydd ar waith wedi ei gynnwys yn y sesiwn ymsefydlu i weithwyr newydd.
Polisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol a diogelwch gwybodaeth	✓ Mae gan y Cyngor set gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud ag adnoddau dynol a diogelwch gwybodaeth, er mwyn ategu rheoli risgiau gan gynnwys Polisi yn ymwneud â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd/Recriwtio Diogel a chynllun arfarnu i bob gweithiwr.
Gosod amcanion strategol	✓ Mae gan y Cyngor weledigaeth sydd wedi'i diffinio'n glir ac fe'i hategir gan bedair blaenoriaeth gorfforaethol sydd wedi eu cofnodi yn y Strategaeth Gorfforaethol a gymeradwywyd gan y Cyngor. ✓ Mae rheoli risg wedi ei ymgorffori ym mhroses gosod amcanion y Cyngor, yn ogystal ag o fewn y broses o weithredu'r amcanion hynny.
Cofnodi amcanion	✓ Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn sicrhau bod pob amcan a phob strategaeth yn destun asesiad risg llawn, yn cael eu rhaeadru ac yn cydymffurfio â'r gofynion cysylltiedig.
Gweithredu strategaethau ac ymatebion i risgiau	✓ Mae adolygiadau rheolwyr o berfformiad gwasanaethau a staff yn sicrhau bod strategaethau ac ymatebion i risgiau yn cael eu gweithredu'n briodol.
Effeithiolrwydd rheoli risgiau	✓ Mae'r Cyngor wedi sefydlu proses ffurfiol o adrodd am reoli risgiau ✓ Ystyrir rheoli risgiau yn rhan o'r broses flynyddol o adolygu llywodraethiant corfforaethol. ✓ Mae risgiau sydd newydd clustnodi yn cael eu cyfeirnodi a'u gosod gerbron e.e. RO16 sy'n ymwneud â Brexit ac RO18 sy'n ymwneud â'r pandemig. ✓ Mae'r fframwaith yn dangos yn glir bod y Cyngor wedi ymrwymo i reoli risgiau, a bod ganddo orolwg gweithdrefnol trylwyr a phendant.

Maes a archwiliwyd	Canfyddiadau
Y broses o asesu risgiau	✓ Mae gan bob risg 'berchennog' sy'n gyfrifol am ei rheoli. ✓ Mae'r gofrestr risg gorfforaethol yn cael ei diweddaru bob chwarter a chyflwynir adroddiad yn rheolaidd i'r Grŵp Arweiniol ac i'r Pwyllgor Archwilio er gwybodaeth / at ddibenion monitro. • Mae'r gofrestr risg yn cynnig manylion am bob risg, ei sgôr (ar hyn o bryd ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf), matrics sgorio, peryglon cysylltiedig ac unrhyw dystiolaeth ohonynt yn digwydd, camau gweithredu sydd wedi eu cymryd i'w lliniaru a'u statws; fodd bynnag nid yw'n gwahaniaethu'n glir rhwng risg gynhenid a risg weddilliol. **(Gweler y Cynllun Gweithredu – pwynt 2 isod)**
Cyfathrebu sy'n ategu rheoli risgiau	✓ Ceir cyfathrebu mynych rhwng y gwahanol wasanaethau, rheolwyr, y Grŵp Arweiniol ac Aelodau. ✓ Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn fel rheol. Mae'r gofrestr risg gorfforaethol yn ogystal â materion archwilio mewnol yn eitemau sefydlog ar agenda'r pwyllgor hwnnw. ✓ Sefydlwyd y Grŵp Rheoli Aur er mwyn galluogi penderfyniadau cyflym o ran y pandemig COVID-19. Cyfathrebir y penderfyniadau hyn ar 'gynllun y ffordd ymlaen i Geredigion' sydd ar y wefan.
Clustnodi Peryglon	✓ Mae'r Fframwaith yn darparu trosolwg manwl o'r cam 'Clustnodi Risgiau' yn y broses asesu risgiau. ✓ Mae Rhestr Gydweithio'r Cyngor (Tachwedd 2019) yn nodi'r risgiau a nodwyd ar gyfer pob partneriaeth. • Nid yw peryglon yn cael eu dosbarthu na'u categoreiddio'n fanwl i gategorïau perthnasol PESTLE (gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol, amgylcheddol) ar y gofrestr risg, er bod y canlyniadau posibl yn aml yn cael eu disgrifio yn rhai ariannol, cyfreithiol, cymdeithasol ayb. **(Gweler y Cynllun Gweithredu – pwynt 3 isod)**
Effaith peryglon a pha mor debygol ydynt o ddigwydd	✓ Mae'r Fframwaith yn rhoi trosolwg byr o matrics risgiau, yn ogystal â dadansoddiad manylach o'r hyn y mae pob lefel o effaith yn ei olygu. • Mae'r weithdrefn rheoli risgiau yn ei gwneud yn ofynnol i gofnodi ac asesu bygythion; fodd bynnag, nid yw effeithiau cadarnhaol bob amser yn cael eu nodi ar y gofrestr risg. **(Gweler Cynllun Gweithredu – pwynt 4 isod)**
Cyfrifoldeb ac ymrwymiad i reoli risgiau	✓ Mae'n rhaid cofnodi risgiau sydd â sgôr o 5 neu fwy (canolig) ar y gofrestr risg gorfforaethol. ✓ Y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd sydd â'r cyfrifoldeb yn ei grynswth am reoli risg, tra bo risgiau unigol yn cael eu dyrannu i'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol perthnasol. • Mae hyfforddiant rheoli risg wedi ei gyflwyno gam wrth gam i'r Rheolwyr a'r Aelodau; mae pecyn e-ddysgu ar gael, ond nid yw'n orfodol i weithwyr. **(Gweler y Cynllun Gweithredu – pwynt 5 isod)**

Maes a archwiliwyd	Canfyddiadau
Casglu Gwybodaeth	✓ Mae gwybodaeth i ategu'r broses rheoli risg yn cael ei chasglu a'i rhannu'n aml ac yn effeithiol. Yn yr un modd gweithredir ar yr wybodaeth honno yn aml ac yn effeithiol a hynny drwy nifer o ddulliau.
Monitro a Gwerthuso'r Broses Rheoli Risg	✓ Mae'r fframwaith a'r gofrestr risg yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i'r Grŵp Arweiniol ac i'r Pwyllgor Archwilio. ✓ Gellir galw rheolwyr i'r Pwyllgor Archwilio os nad yw'r camau gweithredu lliniarol a gynlluniwyd yn cael eu rhoi ar waith, ac/neu os bu methiant yn y system.
Rheoli Gwybodaeth	✓ Mae gan y Cyngor set o weithdrefnau helaeth o ran diogelu gwybodaeth a data. Mae'r gweithdrefnau hyn wedi'u diffinio'n glir ac wedi'u cyfathrebu'n effeithiol. Mae'r gweithdrefnau hyn i gyd (ar wahân i un) wedi eu hadolygu/eu creu o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf). ✓ Mae pob polisi ar gael drwy Cerinet.

Yn yr achosion hynny lle y clustnodwyd cyfleoedd i wella, mae'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd wedi eu nodi yn y Cynllun Gweithredu isod.

Hoffwn ddiolch i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformio a Diogelu'r Cyhoedd a'r Rheolwr Corfforaethol – Partneriaethau a Pherfformiad am eu mewnbwn i'r cynllun gweithredu er mwyn cwblhau'r archwiliad.

MAR/NW/Risg
15 Mawrth 2021

Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Menwol

Dosbarthu'r Adroddiad
Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol – Partneriaethau a Pherfformiad
GA/PA/AC

CYNLLUN GWEITHREDU

Cyf	Y canfyddiad a'r risg gysylltiedig	Y camau y mae angen eu cymryd a'r blaenoriaethau	Sylwadau'r gwasanaeth, dyddiadau targed a chyfrifoldeb
1	**Polisïau a Gweithdrefnau Corfforaethol** Nid oes unrhyw ddolen gyswllt o fewn Cerinet i'r fframwaith rheoli risgiau. Dim ond drwy agendâu Pwyllgorau ar wefan y Cyngor y gellir cael mynediad at y fframwaith. **Risg**: Nid yw'n hawdd cael gafael yn y fframwaith i reoli risgiau; mae gan staff lai o ymwybyddiaeth o'r materion hyn a gallai hyn arwain at ddiffyg cydymffurfiaeth.	Dylai fod modd gweld y fframwaith rheoli risgiau ar Cerinet a hynny yn ddwyieithog. Dylai fod dolen o Cerinet i wefan y Cyngor (neu fel arall) er mwyn hwyluso hygyrchedd.  Canolig	**Sylwadau**: Camau eisoes wedi'u cymryd. Mae'r dogfennau rheoli risg bellach ar gael yn ddiffwdan ar wefan y Cyngor.
2	**Ymatebion Monitro Risg** Nid yw'r fframwaith a'r gofrestr risg yn gwahaniaethu rhwng risg gynhenid a risg weddilliol. Fodd bynnag, mae'r gofrestr risg yn cynnwys siart ar gyfer pob risg, lle manylir ar sgôr y risg dros gyfnod penodol o amser yn y gorffennol. **Risg:** Goramcangyfrif/tangyfrifo faint o fygythiad a ddaw yn sgil risg; nid oes unrhyw fesur sy'n nodi pa mor effeithiol y bu strategaethau lliniaru.	Yn ddelfrydol, dylid nodi risgiau cynhenid a gweddilliol, er mwyn brasgyfrif deilliannau unrhyw gamau lliniaru a gynlluniwyd; ac er mwyn darparu dealltwriaeth llawnach o effaith unrhyw newid, drwy werthuso effeithiolrwydd unrhyw strategaethau lliniaru a roddwyd ar waith.  Yn teilyngu sylw	**Sylwadau**: Derbynnir bod yr arfer hon yn arfer dda.

Cyf	Y canfyddiad a'r risg gysylltiedig	Y camau y mae angen eu cymryd a'r blaenoriaethau	Sylwadau'r gwasanaeth, dyddiadau targed a chyfrifoldeb
3	**Clustnodi Peryglon** Nid yw peryglon yn cael eu dosbarthu neu eu categoreiddio'n fanwl ar y gofrestr risg o fewn categorïau sy'n berthnasol i PESTLE (Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasol ayb), er bod y canlyniadau posibl yn aml yn cael eu disgrifio fel rhai ariannol, cyfreithiol, cymdeithasol ayb. **Risg:** Efallai na fydd y perygl yn cael ei werthuso o'r chwe safbwynt unigryw ac o'r herwydd byddai rhai risgiau'n cwympo drwy'r rhwyd.	Yn ddelfrydol, dylai pob mater gael ei werthuso gan ddefnyddio categorïau PESTLE a dylid nodi hyn ar y gofrestr risg er mwyn cadarnhau bod peryglon posibl wedi eu hystyried/eu nodi o bob un o'r chwe safbwynt.  Yn teilyngu sylw	**Sylwadau**: Derbynnir bod yr arfer hon yn arfer dda.
4	**Effaith peryglon a pha mor debygol ydynt o ddigwydd** Ni chofnodir effeithiau cadarnhaol risgiau bob amser yn yr un ffordd ag y cofnodir effeithiau negyddol. **Risg:** Ni chofnodir cyfleoedd.	Gellid cynnwys effeithiau cadarnhaol posibl ar y gofrestr risg gorfforaethol, er mwyn sicrhau y cymerir camau gweithredu pan fo cyfleoedd yn codi, er mwyn sicrhau'r budd pennaf i'r Cyngor a'r preswylwyr.  Yn teilyngu sylw	**Sylwadau**: Derbynnir y mater hwn. Gallai fod yn ddefnyddiol, gan fod tuedd i ganolbwyntio ar y materion negyddol, yn hytrach nag ar y materion cadarnhaol.

Cyf	Y canfyddiad a'r risg gysylltiedig	Y camau y mae angen eu cymryd a'r blaenoriaethau	Sylwadau'r gwasanaeth, dyddiadau targed a chyfrifoldeb
5	**Cyfrifoldeb ac Ymrwymiad i Reoli Risg** Dim ond ar gyfer Rheolwyr ac Aelodau mae hyfforddiant rheoli risg yn orfodol. Mae gan aelodau eraill o staff yr opsiwn o ddilyn modiwl e-Ddysgu. **Risg:** Gallai arwain at ddiffyg dealltwriaeth a fyddai'n golygu y gallai risgiau allweddol fynd drwy'r rhwyd ac ni fyddai'r risgiau allweddol yn cael ymdriniaeth briodol.	Gellid ystyried gwneud y modiwl e-ddysgu ar reoli risg yn fodiwl gorfodol i bob gweithiwr, er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol beth i'w wneud wrth ddod wyneb yn wyneb â pherygl a allai ddatblygu i fod yn fygythiad i'r Cyngor.  Canolig	**Sylwadau**: Offeryn i reolwyr yw rheoli risg ac er ei fod yn ddiddorol i aelodau eraill o staff, o ran hyfforddiant nid yw'n flaenoriaeth ar draul materion gweithredol.

Canllaw i'r meini prawf sicrwydd a ddefnyddiwyd:

Lefel:	Uchel	Sylweddol	Canolig	Cyfyngedig
Pa mor ddigonol yw'r rheolaethau:	Mae rheolaethau wedi eu sefydlu i sicrhau bod amcanion y gwasanaeth yn cael eu cyflawni ac er mwyn diogelu'r Cyngor rhag unrhyw risgiau sylweddol y gellir eu rhagweld. Ni chanfuwyd unrhyw wendidau sylfaenol.	Mae rheolaethau wedi eu sefydlu i sicrhau bod amcanion y gwasanaeth yn cael eu cyflawni ac er mwyn lliniaru risgiau sylweddol y gellir eu rhagweld. Clustnodwyd rhai meysydd ar gyfer gwelliant.	Mae rheolaethau wedi'u sefydlu i raddau amrywiol. Nodwyd bylchau sy'n gadael y gwasanaeth yn agored i risgiau gwirioneddol. Mae angen sicrhau gwelliant.	Ystyrir bod y rheolaethau'n annigonol. Mae angen cryfhau'r gweithdrefnau'n sylweddol a sicrhau cydymffurfiaeth.
Risgiau:	Mân risgiau yn unig.	Mae cyfle yn bodoli i wella pa mor agored yr ydym i risg.	Mae angen cyflwyno rheolaethau ychwanegol a gwella/neu wella cydymffurfiaeth.	Bydd methu gwella rheolaethau yn gadael y Cyngor yn agored i risg sylweddol (colledion ariannol mawr, colli enw da, methu cyflawni prif amcanion y gwasanaeth)
Canllaw:	Nid oes angen cymryd camau gweithredu sylfaenol na sylweddol.	Nid oes angen cymryd camau gweithredu sylfaenol. Nifer cyfyngedig o gamau gweithredu sylweddol.	Mae angen cymryd nifer o gamau gweithredu sylweddol.	Mae angen cymryd nifer o gamau gweithredu sylfaenol / sylweddol.
Camau dilynol angenrheidiol:	Archwiliad cychwynnol yn unig.	Camau dilynol ar gyfer camau gweithredu sylweddol yn unig / hunanasesu gyda samplau sy'n dangos tystiolaeth o gydymffurfio â'r gofynion.	Archwilio Mewnol i wneud gwaith dilynol gyda phrofion sampl yn cael eu cynnal i sicrhau bod pob cam gweithredu wedi ei roi ar waith ac i ailasesu sicrwydd.	Archwilio Mewnol i wneud gwaith dilynol gyda phrofion llawn yn cael eu cynnal i sicrhau bod pob cam gweithredu wedi ei roi ar waith, ac i ailasesu sicrwydd.

Y canllaw a ddefnyddiwyd ar gyfer dosbarthu'r camau gweithredu:

Dosbarthu'r Camau Gweithredu

Hanfodol	Sylweddol	Canolig	Yn teilyngu sylw
Gwendid sy'n hollbwysig o safbwynt rheoli risgiau yn y gwasanaeth. Mae angen rhoi gwybod amdano ac mae angen i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol roi sylw i'r mater.	Canfyddiadau pwysig sy'n nodi na chydymffurfir â gweithdrefnau sydd wedi eu sefydlu a gallent arwain at risg o golledion ariannol/golli enw da'r gwasanaeth.	Canfyddiadau sy'n nodi na chydymffurfir â gweithdrefnau sydd wedi eu sefydlu ond nid ydynt yn cynrychioli unrhyw risg sylweddol o ran colledion ariannol/colli enw da'r gwasanaeth.	Eitemau nad oes angen cymryd unrhyw gamau gweithredu yn eu cylch neu eitemau lle mae angen cymryd ychydig o gamau gweithredu yn unig. Mae'r mater wedi'i gynnwys gan y gallai fod o fudd i'r gwasanaeth neu gallai fod yn gyngor sy'n gysylltiedig ag arfer orau.